# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-11-08 (p1): 25 Mehefin 2008**

## Atodiad A

## Gwrthwynebiad Cymdeithas yr Iaith i'r Rhybudd Statudol i gau Ysgol Llanddeusant

### (1) Achos Sylfaenol

Mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu'r bwriad i gau Ysgol Llanddeusant oherwydd

nad oes unrhyw achos addysgol dros gymryd cam o'r fath ac yn wir byddai cau'r ysgol yn niweidiol i addysg y plant.

y byddai cau'r ysgol yn achosi problemau cymunedol difrifol i gymuned Gymraeg ei hiaith.

Fod y broses ymgynghori wedi bod yn gwbl ddiffygiol trwy fod y Cyngor wedi anwybyddu canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol a'i nod ei hun fel cyngor. Ni bu unrhyw ymdrech i werthuso posibiliadau heblaw am gau'r ysgol. Credwn fod y broses mor ddiffygiol nes dwyn anfri ar yr holl drefn pe caniateid penderfyniad ar sail y broses hon.

### (2) Achos Addysgol

2(1) Cyhoeddwyd gan y Cyngor ddogfen denau 4 tudalen yn Ionawr 2008 yn sylfaen i fis cwta o ymgynghori. Yn y papur hwn, yr unig gyfeiriad at addysg yw pwynt (9) lle dywedir fod adroddiad Estyn ar sail arolygiad yn 2005 "yn tystio fod Ysgol Llanddeusant yn cyrraedd safonau da". Dywed canllawiau'r Cynulliad mai'r brif ystyriaeth ddylai fod safon yr addysg a ddarperir. Nid yw dogfen y Cyngor yn cynnwys ond un paragraff sy'n cyfeirio o gwbl at addysg, ac nid oes unrhyw ymgais i sefydlu achos addysgol dros gau'r ysgol.

2(2) Dywed y ddogfen fod "anfanteision hefyd i ysgol mor fychan yn arbennig o safbwynt cyfleoedd i weithgareddau torfol a chydberthynas a chyfoedion". Lle bo angen crynhoi ynghyd nifer mwy sylweddol o ddisgyblion o'r un oedran at bwrpasau addysgol, cymdeithasol neu chwaraeon, gellir cyflawni'r pwrpas hwnnw trwy gydweithrediad rhwng ysgolion. Y mae cydweithio strwythuredig hefyd yn gallu cynnig manteision addysgol o ran cronni arbenigedd staff ac adnoddau.

2(3) Os caeir Ysgol Llanddeusant, mae gwir berygl yr amddifedir cyfran o blant y gymuned yn y dyfodol o addysg cyfnod sylfaen, ac y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gosod hwn yn flaenoriaeth. Mae Ysgol Llanddeusant wedi'i lleoli yng nghanol y pentre, ac mae cyfran helaeth o'r disgyblion yn cerdded i'r ysgol. Ni ellir cludo plant tan 5 oed ar drafnidiaeth gyhoeddus. Felly, onibai fod rhieni a'r moddion (efallai 2 gar mewn teulu) o gludo'r plant ol a mlaen yn ddyddiol at ysgol arall, fe gant eu hamddifadu o addysg Cyfnod Sylfaen gan osod y plant tan anfantais ar ddechrau eu cyfnod o addysg.

2(4) Y mae'n amlwg y byddai'n anos i rieni gymryd rhan llawn ym mywyd yr ysgol newydd mewn ardal arall - o ran nosweithiau, ymweld ag athrawon, ymgeisio i fod yn llywodraethwyr a rhoi cefnogaeth lawn i'w plant. Byddai hyn yn niweidiol i addysg plant Llanddeusant gan fod cefnogaeth rhieni a chymuned o bwys i addysg plant.

2(5) Os caeir yr ysgol, ni bydd yr adnoddau ar gael ar gyfer addysg gymunedol, ac mae proffil yr ysgol a gyfansoddwyd gan y Cyngor ei hun yn cyfreirio at y llyfrgell/stafell Technoleg Gwybodaeth fel adnodd o bwys.

2(6) Mae'r Cyngor cydnabod y caiff plant Llanddeusant - os caeir yr ysgol - eu gwasgaru i wahanol gyfeiriadau ac ysgolion gan dorri'n ddifrifol ar draws y gymuned ddysgu ymhlith y plant. Mae hyn yn groes i arfer da yn ol canllawiau'r Cynulliad..

2(7) Seilir yr holl ddogfen denau, ac achos y Cyngor dros gau Ysgol Llanddeusant, ar gost dybiedig yr addysg. Honnir y gellid arbed hyd at £90,000 mewn blwyddyn. Mae golwg cul ar y gyllideb addysg yn unig. Nid oes unrhyw ddadansoddiad ariannol o effaith "dad-gomisiynu" rhan o'r adeilad a'i defnyddio at ddiben gyhoeddus arall yn lle bod yn rhan o'r ysgol neu yn ogystal, a derbyn incwm o ganlyniad. Beth fyddai effaith hyn ar y cyfrifon ? Ym mhwynt (1.9) o gylchlythyr y Cynulliad Rhif 23/02, dywedir y dylai Awdurdod Lleol "rhoi ystyriaeth i p'un a fydd defnydd arall o'r adeilad (ychwanegwn neu ran ohoni) yn ffordd effeithiol o wneud y gorau o adeiladau ysgolion". Nid yw'r Cyngor wedi ystyried hyn o gwbl, a gellid o ganlyniad leihau'n sylweddol y "golled" dybiedig o £90,000p.a. Gellid rhoi'r llyfrgell / stafell T.G. at ddefnydd addysg gymunedol, sonnir yn yr adroddiad fod angen creu stafell yn yr ardal ar gyfer addysg sylfaen, gellid lleoli rhai swyfddogion cyngor oddifewn i'r adeilad yn lle gorfod teithio i Langefni - mae'r rhestr o ddefnydd potensial yn hirfaith a gallent oll ddwyn incwm i mewn o ffynonellau eraill neu arbed gwariant o gyllidebau eraill. Gan fod y Cyngor yn cydnabod fod Ysgol Llanddeusant yn cynnig addysg dda i'r disgyblion ac yn seilio'i holl achos ar y gost, mae cyfrifoldeb arbennig arno i wneud dadansoddiadau manwl o'r fath, a mabwysiadu ymagwedd holistaidd. Mae wedi methu yn y gyfrifoldeb ac nid yw'r Awdurdod wedi sefydlu unrhyw achos dros gau'r ysgol.

2(8) Ni ddeilliai chwaith unrhyw fanteision o ran cyfalaf i'r gyllideb addysg trwy gau'r ysgol. Ni ellid gwerthu'r adeilad gan fod perchnogaeth y safle'n aneglur. Cyfeiriwn at enghraifft Ysgol Llanfihangel-ar-arth yn Sir Gaerfyrddin. Caewyd yr ysgol 6 mlynedd yn ol, ond nid yw'r hawl ar berchnogaeth yr adeilad yn agos at gael ei sefydlu o hyd.

### (3)Effaith ar y Gymuned

3(1) Mae Adran (1.11) o'r un cylchlythyr gan y Cynulliad ar drefniadaeth ysgolion, gan gynnwys cau ysgolion,yn dweud y dylid "ystyried effaith cau'r ysgol ar y gymuned yn gyffredinol". Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng nghanol y pentre ac yn adnodd bwysicaf cymuned bentrefol Gymraeg. O safbwynt ymagwedd holistaidd at gyfrifon cyhoeddus, mae'n ddi-synnwyr fod un adran o'r cyngor yn ceisio arbed swm cymhedrol iawn o arian trwy gau ysgol tra bo asiantaethau cyhoeddus eraill yn gwario arian cyhoeddus ar geisio adnewyddu ein cymunedau Cymraeg.

3(2) Yr unig ymdriniaeth a wneir gan y Cyngor o'r agwedd hwn yw crybwyll fod neuadd ar gael yn y pentref ac felly y mae'r defnydd ffurfiol o'r ysgol at ddibenion cymunedol yn gyfyngedig.Arwynebol iawn yw ceisio mesur gwerth ysgol i gymuned trwy gyfri faint o gyfarfodydd ffurfiol a gynhelir yn yr adeilad. Mae ysgol - yng nghanol pentref, fel Llanddeusant - yn arwydd o obaith am y dyfodol i gymuned leol, a daw chwalfa'n aml wedi cau ysgol. Mae'r elfennau ifainc a bywiog mewn cymuned yn cael eu chwalu. Ni byddai rhieni yn dewis yr ysgol hon i'w plant oherwydd ei hethos fel "ysgol bentre" ond yn hytrach mai oherwydd mai ysgol eu cymuned bentrefol nhw ydyw a'u bod yn teimlo perchnogaeth arni. Yn ol profiad pentrefi eraill a gollodd eu hysgolion, byddai rhieni Llanddeusant yn anfon eu plant at nifer o wahanol ysgolion o ran cyfleustra teuluol pe caewyd eu hysgol nhw.. Byddai'r plant yn cael eu chwalu i nifer o wahanol gyfeiriadau, a byddai'r rhieni'n eu dilyhn i weithgareddau yn y gwahanol ysgolion newydd i'r graddau y gallent neu'n aros adref pe na allent. Byddai'r ymdeimlad o gymuned ymhlith y plant a rhieni ifanc wedi'i chwalu. O ganlyniad byddai'n anos cynnal unrhyw ganolfan neu wasanaethau eraill yn y pentref. Byddai dirywiad cynyddol trwy'r ffenomenon cyson fod oedolion ifainc yn llai tenyg o brynu tai mewn cymunedau lle nad oes ysgol.

3(3) Nid oes chwaith unrhyw ddadansoddiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg, a hon yw ysgol Gymreiciaf y cylch Mae'n wir fod yr ysgolion cylchynol hefyd yn Gymraeg eu cyfrwng, ond byddai plant mewnfudwyr i'r pentre wedyn yn ystyried y Gymraeg yn gyfrwng addysg yn unig yn hytrach nag yn allwedd i'r gymuned leol. Os na byddai ysgol tu fewn i'r gymuned, byddai eu rhieni'n llai tebyg o uniaethu a'u plant a cheisio dysgu Cymraeg. Yn bennaf oll, byddai dirywiad ym mywyd cymdeithasol cymuned Gymraeg eto. Gan fod yr ysgol wedi'i lleoli yn union ganol y pentre y mae ei phwysigrwydd i gynnal cymuned Gymraeg yn bwysicach nag mewn ysgol sy'n gwasanaethu ardal wasgarog.

### (4) Methiant Llwyry Broses Ymgynghori

4(1) Mae canlyniadau'r arolwg o ysgolion cynradd dalgylch Bodedern a Chaergybi'n gwbl groes i'r nod a osododd y Cyngor iddo'i hunan ar ddechrau'r broses "rhesymoli". Yn ganlyniad i'w ymchwiliad i ddyfodol ysgolion y cylch, mae'r Cyngor wedi penderfynu cau Ysgol Llanddeusant, ac wedi penderfynu yn achos ysgolion cyfagos Ffrwd Wein a Cylch y Garn - "Parhau i gynnal yr ysgolond ystyried sefydlu ysgol ardal yn y dyfodol wedi cwblhau adolygiad yr holl sir." Yr un modd y mae'r Cyngor wedi penderfynu cau Ysgol Aberffraw ac parhau i gynnal yr ysgolion cylchynnol am y tro hyd nes dod i benderfyniad maes o law am greu strwythurau cydweithio..

Mae'r canlyniadau hyn yn gwbl groes i'r nod a osodwyd yn adran gyntaf dogfen ymgynghorol y Cyngor (Hydref 2007) "Rhesymoli Ysgolion Dalgylch Caergybi a Bodedern" sef y "dylai newidiadau i'r status quo fod yn gynaladwy yn y tymor hir". Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw eu newidiadau arfaethedig ar gyfer ardal ysgolion Llanddeusant, Ffrwd Win, Cylch y Garn yn gynaladwy yn y tymor hir gan eu bod yn bwriadu ailedrych ar yr ysgolion o fewn dwy flynedd i ystyried sefydlu Ysgol Ardal. Gellid hyd yn oed bod ansicrwydd hefyd i Ysgol Llanfachraeth sydd wedi'i gadael allan o'r ystyriaeth am y tro yn unig oherwydd fod nifer y disgyblion ychydig dros y terfyn mympwyol o 50. Mae hyn yn gwbl anheg hefyd i'r ysgolion eraill gan nad yw argymhellion cyfredol y Cyngor yn rhoi unrhyw sicrwydd tymor hir iddyn nhwythau. Felly nid yw'r newid arfaethedig yn cyflawni'r nod y mae'r Cyngor wedi'i osod iddo'i hunan o greu ateb cynaladwy.

4(2) Mae'r modd y cymerwyd y penderfyniad i gau Ysgol Llanddeusant hefyd yn gwbl groes i ganllawiau'r Cynulliad o ran proses ymgynghori deg cyn argymell cau ysgol. Mae Adran 2 cylchlythyr y Cynulliad ar drefniadaeth (a chau) ysgolion - rhif 23/02 - yn rhestru ymhlith y ffactorau i'w hystyried -

" A ystyriwyd posibiliadau eraill heblaw cau'r ysgol, yn enwedig edrych ar ffederasiwn, clystyru neu gydweithio ag ysgolion eraill ( gan gynnwys y sgop i ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng yr ysgolion) a'r rhesymau am beidio a dilyn y rhain fel dewis arall i gau ysgol....a ystyriwyd y posibiliadau o wneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau presennol fel adnodd addysgol yn y gymuned" Yr ateb yn syml iawn yw "NA" - ni wnaeth y Cyngor hyd yn oed ystyried y posibiliadau hyn heb son am eu gwerthuso a chynnig rhesymau paham na ddewiswyd yr opsiynau hyn. Nid yw'r ddogfen fer a ranwyd yn y cyfnod ymgynghori statudol yn Ionawr 2008 yn enwi unrhyw opsiynau heblaw am broblemau cadw'r ysgol fel y mae a manteision cynnig y Cyngor i gau'r ysgol a danfon y plant at unrhyw ysgol arall a fyddai'n barod i'w derbyn am y tro hyd nes bod yr ysgolion hynny hefyd efallai'n peidio a bod !!!. Nid yw erioed wedi crybwyll y bosibiliad - heb son am ddadansoddi - o drefnu Ysgol Llanddeusant mewn rhan o'r adeilad bresennol gan ddefnyddio'r gweddill at bwrpas addysgol arall ( meithrinfa neu stafell cyfnod sylfaen neu addysg gymunedol ) neu at bwrpas cymunedol neu weinyddol arall. Trwy "ddad-gomisiynu" rhan o'r adeilad fel ysgol byddid yn datrys dros nos broblem y capasiti dros ben a derbyn incwm o ffynonellau heblaw am y gyllideb addysg gynradd statudol.

### Gan nad yw'r awdurdod wedi dadansoddi dim o'r atebion eraill hyn, a chan ei fod hefyd wedi anwybyddu canllawiau eraill gan y cynulliad megis astudio effaith cau ysgol ar y gymuned leol, y mae'n rhaid bellach i lywodraeth y cynulliad gynnal hygrededd ei chanllawiau ei hunan a chaniatau'r apel yn erbyn bwriad y cyngor i gau'r ysgol ar y seiliau hyn.

Fel arall, bydd y broses ymgynghorol a democrataidd ei hunan yn colli pob hygrededd.

4(3) Mae'n wir fod yr Awdurdod wedi cyfeirio'n gyffredinol at fodelau eraill mewn papur ymgynghorol blaenorol a drafododd yr holl gylch o ysgolion "Rhesymoli Ysgolion Cynradd Dalgylch Caergybi a Bodedern" a gyhoeddwyd rai misoedd ynghynt yn Hydref 2007. Ond ni ellir cymryd hwn fel dadansoddiad difrifol o opsiynau eraill yng nghyd-destun y cyfnod penodol o ymgynghori am y bwriad i gau

Ysgol Llanddeusant. Yn wir, mae'r Awdurdod wedi camddeall yn llwyr natur ei chyfrifoldeb o ran dadansoddi dulliau eraill heblaw am gau Ysgol Llanddeusant. Yn Adran olaf (5) y ddogfen hon, mae'r Awdurdod yn dyfynnu'n syml ddisgrifiad ESTYN o fanteision ac anfanteision cyffredinol gwahanol fodelau addysgol - 5.1-ysgol annibynol, 5.2-clwstwr ffurfiol, 5.3-ffederasiwn anffurfiol, 5.4-ffederasiwn ffurfiol, 5.5-Ysgol Ardal.. Mae'r Cyngor yn ychwanegu dadansoddiad cyffredinol o gost nodweddiadol gwahanol fodelau o ffederasiynau (ond nid yng nghyd-destun unrhyw ysgolion arbennig) ac yn ychwanegu "Bydd angen costio unrhyw gynigion clystyru neu ffederaleiddio'n ofalus gan bwyso a mesur i ba raddau mae'r model penodol fyddai dan sylw yn gost-effeithiol dros y tymor hwy.". Ac eto ni wneir unrhyw ddadansoddiad trylwyr o'r opsiynau hyn yng nghyd-destun Ysgol Llanddeusant. Cred y Cyngor ei fod yn ddigonol gyfeirio'n unig at ddadleuon cyffredinol Estyn am wahanol fodelau addysgol. Felly, yn y ddogfen yn Hydref 2007 wwrth gyfeirio at opsiynau ar gyfer Ysgol Llanddeusant, rhoddir 3 paragraff cwta o rationale dros gau'r ysgol, ond o ran opsiwn "parhau i gadw'r ysgol fel ysgol annibynnol", dywedir yn syml "Ystyriaethau - gweler adran 5.1" hynny yw gan gyfeirio at ddadleuon cyffredinol Estyn. Yr un modd, yr unig ymdriniaeth a chlystyru ag ysgolion cyfagos yw "gweler adran 5.2", a'r ymdriniaeth cynhwysfawr a phob model ac amrywiad ar ffedereiddio gydag ysgolion cyfagos yw "gweler Adran 5.3 / 5.4". Mae'r Cyngor tan gamargraff dybryd wrth gredu'i fod wedi cyflawni ei dyletswydd statudol o werthuso opsiynau eraill trwy wneud cyfeiriad at fodelau addysgol cyffredinol. Mae canllawiau'r Cynulliad yn dweud yn eglur "Cloriennir pob achos yn ol ei haeddiant" (2.1) - hynny yw rhaid gwerthuso modelau penodol o glystyru/ffedereiddio Llanddeusant gyda'r holl bosibiliadau eraill. Ni bu unrhyw ymdrech i wneud hyn, ac ni ellir casglu fod angen cau ysgol ar sail gwaith "cut and paste" o wefan ESTYN. Nid yw'r Cyngor Sir wedi gwerthuso'r atebion alternatif yn ol ei gyfrifoldeb na rhoi gwybodaeth o'r fath i'r sawl yr ymgynghorwyd a nhw. Mae'r broses ei hunan felly yn ddiwerth.

4(4) Gwnaeth y Cyngor Sir gamgymeriad sylfaenol arall trwy allgau nifer o atebion potensial cyn cychwyn. Yn ei ddogfen ymgynghorol wreiddiol ar resymoli ysgolion y cylch, rhestrir y gwahanol ysgolion yn ol eu maint i A Ysgolion 90+ disgyblion, B. Ysgolion 50-90, C. Ysgolion 20-50 a CH. Ysgolion llai na 20. Trafodir yn unig y 2 gategori lleiaf o ysgolion ar gyfer ad-drefnu gan ddwyn i mewn Ysgol Llanfachraeth o gategori B er mwyn cyfleustra daearyddol. Dyma allgau cyn cychwyn y bosibiliad o greu clwstwr/ffederasiwn rhwng ysgol fwy categori A (e.e. Bodedern) gydag ysgolion llai cylchynol. Yn ol model o'r fath, byddai arbedion potensial o ran crynhoi nifer o adnoddau a datblygiadau cyfalaf ar y safle canolog tra'n cynnal addysg (a diddordeb rhieni) yn y pentrefi cylchynol. Mae yn sicr yn fodel gwerth ei werthuso, a phenderfynwyd ymlaen llaw am resymau dogma addysgol i beidsio a gwnedu hynny. Dyma gam arall a barodd fod yr ymgynghori'n annilys. Yr unig werthusiad a wnaed yn Hydref 2007 o unrhyw fodelau eraill oedd un tabl o gost cymharol 4 opsiwn yn unig 1) Cadw Ysgol Llanddeusant, 2) "Uno" Llanfachraeth a Llanddeusant ac hefyd"uno" Llanrhuddlad a Llanfaethlu, 3) "Uno" Llanddeusant a Llanrhuddlad, a 4) Ysgol Ardal i'r pedair. Mae'r dadansoddiadau hyn yn gyfyngedig i ymarferiad swyddfa mewn cyfrifon ac arbedion ariannol tybiedig heb esboniad am y ffigurau na phaham y penderfynwyd edrych ar y dewisiadau mympwyol hyn, ac heb ystyried o gwbl manteision / anfanteision addysgol a chymunedol y gwahanol fodelau. Ac nid oes unrhyw werthusiad o gwbl o fodelau o ffedereiddio neu glystyru ysgolion.

## 5.Casgliad

5(1)Paham felly fod agwedd Cyngor Ynys Mon wedi bod mor ddiffygiol tuag at yr ymgynghori a chynnig dewisiadau real i'r sawl yr ymgynghorwyd a nhw? Yn ein tyb ni, mae'r ateb yng nghofnodion cyfarfod ymgyhgnori arall a ddigwyddodd yn Ysgol Llanddeusant. Cadwyd cofnodion swyddogol o gyfarfod ymgynghori statudol gyda staff Ysgol Llanddeusant ar 17.1.08. Dyma ran allweddol y cofnodion

Athrawes - "Os yr ydych yn penderfynu cau yr ysgol - oes pwynt i ni gwyno?"

Cyng John Meirion Davies (cyn-ddeiliad portffolio addysg) yn ateb ar ran y Cyngor Sir - "Mae'r Cynulliad yn pwyso arnom i gau ysgolion bychain. Er hynny nid ydynt yn dweud wrthoch am beidio gwrthwynebu." Ychwanega fod angen edrych at enghraifft Adurdod Addysg Dinbych "Nid oeddent yn cytuno a sut oedd yr Adran Addysg yn gweithredu felly maent yn rhedeg yr Adran drostynbt hwy erbyn hyn".

Cred Cyngor Mon felly fod Llywodraeth y Cynulliad mewn gwirionedd yn gorfodi Awdurdodau Addysg Lleol i gau ysgolion ond yn caniatau i wrthwynebwyr fynd trwy "motions" gwrthwynebu wr mwyn cyfreithloni'r broses ymgynghori a rhoi argraff fod dewis wedi bod. Gan fod y Cyngor yn argyhoeddiedig fod y Cynulliad yn mynnu fod ysgolion yn cael eu cau, ni welant ddiben mewn gwastraffu gormaod o adnoddau'n mynd trwy "motions" ymchwilio i wahanol opsiynau gan na byddant yn cael eu derbyn.

Bydd yn rhaid i Weinidog Addysg y Cynulliad - trwy ei dyfarniad ar yr Apel hwn - ddangos a oes proses ymgynghorol o ddifri ai peidio.

5(2) Mae'r dogfennau hyn ar ran y Cyngor sy'n sail i'w hachos dros gau Ysgol Llanddeusant yn gwbl agored ac yn ddi-gywilydd yn ymarferion mewn cyfrifyddiaeth heb fawr dim cyfeiriadau o gwbl at addysg. Does dim unrhyw ffordd y gellir cysoni hyn a datganiad y Cynulliad fod yn rhaid gosod addysg y plant yn ystyraiaeth flaenaf. Yn ol yr argymhelliad, caiff y plant eu tynnu o ysgol sy'n llwyddo'n addysgol ac y mae eu rhieni a'u cymuned yn teimlo perchnogaeth arni, a'u danfon at amrywiaeth o ysgolion eraill gyda phosibiliad pendant y bydd torri eto ar eu haddysg wrth fod yr ysgolion hyn hefyd yn cael eu cau i greu Ysgol Ardal. Bydd plant bach y dyfodol yn debyg o gael eu hamddifadu o addysg sylfaen a phobl leol eu hamddifadu o adnodd pwysig ar gyfer addysg gymunedol yng nghanol eu pentre. Dadleuir y gallai chwalfa o'r fath arbed £90,000 p.a. ond nid oes unrhyw ystyriaeth o ddulliau eraill o godi incwm trwy ddefnydd y cfleustra nac o gostau ychwanegol taclo'r problemau addysgol, cymunedol a diwylliannol canlynol. Gwrthwynebwn y rhybudd o fwriad i gau Ysgol Llanddeusant.

Cymdeithas yr Iaith 3.5.08